

Adroddiad ar gyfer	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	17 Medi 2018
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)
Swyddog Cyswllt	Julie Brown (01745 535282)
Pwnc	Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2017-18



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r aelodau, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r adroddiad blynyddol ar gael yn atodiad 1.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn nodi'r gwaith a wnaed gan y bwrdd yn ystod 2017-18 ac mae'n darparu rhaglen waith ar gyfer 2018-19.

ARGYMHELLIAD

- 3 Bod yr aelodau'n cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2017/18, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

GWYBODAETH

- 4 Cafodd y trefniadau llywodraethu newydd eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu mwy eglur gyda rolau mwy penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, ac arferion gweinyddu sy'n cyfateb i rai yn y sector preifat.
- 5 Daeth Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sy'n ymwneud â mynd ati'n barhaus i greu a gweithredu pensiynau lleol, i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn mynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub (ATAGC) yn sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

- 6 Rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru â'i waith fel rheolwr y cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon, a'i fod wrth wneud hynny yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn gwella tryloywder, rhaid i ATAGC gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.
- 7 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:
- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
 - manylion meysydd pryder a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
 - manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai fod wedi codi i aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
 - unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
 - manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd
 - manylion unrhyw dreuliau a chostau a fu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad ydynt yn berthnasol
Cyllideb	Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o gyllideb gyfredol Gwasanaethau Aelodau
Cyfreithiol	Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer pensiynau eu cyhoeddi o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Rheoliadau Llywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) 2015.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ystyrir nad oes angen delio ag unrhyw faterion oherwydd mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl.
Risgiau	Rhaid i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheolwr Pensiynau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol.

**Cynllun Pensiwn
Diffoddwyr Tân
Gwasanaeth
Tân ac Achub
Gogledd Cymru**

**Adroddiad Blynyddol
Bwrdd Pensiwn Lleol
2017-18**

Cynnwys

	Tud.
1. Cefndir	3
2. Rôl a Chylch Gwaith	3
3. Cyfansoddiad ac Aelodaeth	3
4. Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro	4
5. Gwybodaeth a Dealltwriaeth	5
6. Polisi Hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith	6
7. Rhaglen Waith 2017-18	7
8. Rhaglen Waith 2018-19	7
9. Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol	8

1.0 Cefndir

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd). Yn achos Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, rôl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- y rheoliadau perthnasol;
- unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- gofynion a orfodir gan y Rheolydd mewn perthynas â'r Cynllun a
- sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae disgwyl i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gwblhau a helaethu'r trefniadau presennol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r cynllun. Nid yw'n cymryd lle'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, ei nod yw gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheolwr y cynllun.

Gwnaeth y Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015 ffurfio gofynion y Ddeddf, a'i gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015. Cydymffurfiwyd yn llawn â'r gofyniad hwn a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 20 Ebrill 2015.

2.0 Rôl a Chylch Gwaith

Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod fel Rheolwr Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r Bwrdd yn gwneud hyn drwy adolygu'r polisiau a'r arferion y mae'r Awdurdod wedi eu mabwysiadu, yn eu gwirio yn erbyn y rheoliadau cymwys, yn ogystal ag yn eu cymharu ag achosion o arferion da mewn lleoedd eraill. Nid oes gan y Bwrdd Pensiwn Lleol bwerau i wneud penderfyniadau ond gall wneud argymhellion i'r Awdurdod eu hystyried.

3.0 Cyfansoddiad ac Aelodaeth

Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei lywodraethu gan Cylch Gorchwyl a gymeradwywyd ac sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyflawni gofynion y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol. Mae copi o'r ddogfen ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1257/cylch-gwaith-bwrdd-pensiynau.pdf>

Er mwyn sicrhau eu bod yn cwbl cynrychioliadol, mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhaid i aelodaeth pob Bwrdd Pensiwn Lleol gynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr y cyflogwr ac aelodau'r cynllun (gweithwyr). Mae aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i hamlinellu isod.

Ebrill 2015 - Mai 2017

Cyflogwr:

Cyfanswm o chwe aelod gan gynnwys pedwar aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sef Y Cyng. Brian Dunn, Y Cyng. Delyth Macrae, Y Cyng. W Tudor Owen, Y Cyng. J Rodney Skelland yn ogystal â Chlerc yr Awdurdod a Thrysorydd yr Awdurdod.

Aelod o'r Cynllun (Gweithiwr):

Cyfanswm o chwech cynrychiolydd gan gynnwys cynrychiolwyr o bob corff sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag ATAGC:

Undeb yr FBU - Shane Price a Sandra Williams;

Cymdeithas y Swyddogion Tân - Geraint Hughes a Paul Scott;

Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân - Richard Fairhead a Ruth Simmons.

Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol Mehefin 2017-2020

Cyflogwr

Cyfanswm o bum aelod, gan gynnwys tri aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sef y Cynghorwyr Rodney Skelland, John Brynmor Hughes a Bryan Apsley yn ogystal â Clerc yr Awdurdod a Thrysorydd yr Awdurdod.

Aelod o'r Cynllun (Gweithiwr):

Cyfanswm o bum aelod, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag ATAGC:

Undeb yr FBU - Parry Davies a Blythe Roberts

Cymdeithas y Swyddogion Tân - Geraint Hughes a Paul Scott

Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân - Richard Fairhead

Cadeirydd y Bwrdd

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, yn Gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd, sef 2017-2019. Enwebwyd y Cadeirydd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Cyfarfu'r Bwrdd ddwywaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

4.0 Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro

Fel Rheolwr y Cynllun, rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod gan y Bwrdd Pensiwn Lleol drefniadau ar gyfer llywodraethu'r ymddygiad a ddisgwylir gan yr aelodau, gan gynnwys gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Disgwylir i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol gadw at safonau uchel o ymddygiad yn unol â 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' (Egwyddorion Nolan). Bydd rhaid i aelodau'r Bwrdd ddilyn cod ymddygiad yr aelodau a pholisïau diogelu data GTAGC wrth gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau.

Heblaw am ddarpariaethau Cod Ymddygiad yr Awdurdod, rhaid i'r aelodau sicrhau nad oes buddiannau'n gwrthdaro i niweidio'r modd maent yn gwneud penderfyniadau. Ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, y diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau' yn adran 5(5) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yw buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o niweidio gallu unigolyn i gyflawni swyddogaeth fel aelod o Fwrdd Pensiwn Lleol (er nad yw hynny'n cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n digwydd oherwydd bod yr unigolyn hwnnw'n aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân). Argymhellodd y Rheolydd Pensiynau fod yr holl awdurdodau gweinyddu'n sefydlu Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau ar gyfer eu Bwrdd Pensiwn Lleol newydd. Cytunodd Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn briodol ar Bolisi Gwrthdaro manwl yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2015. Ceir copi o'r polisi yn y fan yma:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337271/rheoli-gwrthdaro-buddiannau-polisi-301115.pdf>

5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Yn unol ag Adran 248A o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i bob unigolyn sy'n aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod yn gyfarwydd â:

- rheolau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; ac
- unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisi ynglŷn â gweinyddiaeth y Cynllun ac sy'n cael ei fabwysiadu am y tro mewn perthynas â'r Gronfa.

Rhaid i bob unigolyn fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a allai gael eu rhagnodi.

Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl, a lle bo modd rhaid iddo gefnogi holl aelodau'r Bwrdd i gael yr hyfforddiant hwnnw.

Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gadw cofnodion priodol o weithgareddau dysgu yr aelodau unigol, a'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn gymorth i'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofyniad a sut y maent wedi lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau gwybodaeth.

Mae'n ofyniad statudol i gynnwys manylion yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen yr wybodaeth hon o bryd i'w gilydd ar asiantaethau eraill, megis y Rheolydd Pensiynau. Ceir amserlen isod o'r hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystod 2017-18:

Dyddiad	Hyfforddiant	Yn bresennol
0/04/16	<p>Modiwl Hyfforddiant y Rheolydd Pensiynau</p> <p>Adrodd ynghylch Achosion o Dorri'r Gyfraith –</p> <p>Data Cywir am Aelodau</p>	<p>Cynrychiolwyr Cyflogwr – Cyng D Macrae; Cyng J Rodney Skelland.</p> <p>Ymgynghorwyr – D Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân/Trysorydd dros dro; J Brown, Pennaeth Cyllid.</p> <p>Cynrychiolwyr gweithwyr - R Fairhead a G Brandrick, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân; P Scott, Cymdeithas Swyddogion Tân; P Davies, Undeb y Frigâd Dân.</p>
11/01/18	<p>Modiwl Hyfforddiant y Rheolydd Pensiynau (i aelodau newydd)</p> <p>Rheoli Risgiau a Rheolaeth Fewnol</p> <p>Data Cywir am Aelodau Gwrthdaro rhwng Buddiannau Torri'r Gymraeg</p> <p>Modiwl Hyfforddiant y Rheolydd Pensiynau</p> <p>Cynnal Cyfraniadau Aelodau Darparu Gwybodaeth i Aelodau ac Eraill</p>	<p>Cynrychiolwyr Cyflogwr – Cyng B Apsley, Cyng J B Hughes; Cyng J Rodney Skelland.</p> <p>Ymgynghorydd - J Brown, Pennaeth Cyllid.</p> <p>Cynrychiolwyr gweithwyr - R Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân; G B Hughes a P Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân; P Davies a B Roberts, Undeb y Frigâd Dân</p>

6.0 Polisi Hysbysu'r Rheolydd Pensiynau am achosion o Dorri'r Gyfraith

Yn unol ag adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i rai unigolion hysbysu'r Rheolydd Pensiynau cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol pan fan gan y unigolion hynny achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- ni fu, neu nid oes, cydymffurfiaeth â dyletswydd sy'n berthnasol i weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), ac sy'n cael ei gorfodi gan ddeddfiad neu reol y gyfraith; ac
- mae methu â chydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheolydd wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn gymwys yn uniongyrchol i bob unigolyn sy'n aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bu i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gymeradwyo polisi ar gyfer adnabod ac adrodd am achosion o dorri'r gyfraith a cheir copi o'r ddogfen yn y fan yma:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337948/6-cymraeg-nwfrs-reporting-breaches-of-the-law-to-the-pensions-regulator.pdf>

Yn ystod 2017/18, ni chafodd unrhyw faterion eu codi gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn ac a oedd angen eu hatgyfeirio i'r Rheolydd Pensiynau.

7.0 Rhaglen Waith 2017-18

Cyfarfu'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddwywaith yn 2017-18, a hynny ar 7 Ebrill 2017 a 11 Ionawr 2018. Fel gofyniad statudol, mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi derbyn diweddariadau deddfwriaethol rheolaidd.

Cyfarfod y Bwrdd – 7 Ebrill 2017

Datganiad o Ddiddordeb
Cytuno ar Adroddiad Blynyddol 2016-17
Hyfforddiant – (mae adran 5 yn cyfeirio at hyn)
Cymeradwyo'r polisi Achosion o Dorri'r Gyfraith
Adroddiad am Ddata Pensiynau

Cafodd cofnodion pob cyfarfod eu cofnodi a'u darparu i'r Awdurdod. Ni chanfuwyd unrhyw fater o bryder nac o bwys i adrodd ymhellach yn ei gylch.

Cyfarfod y Bwrdd – 11 Ionawr 2018

Datganiad o Ddiddordeb
Hyfforddiant – (mae adran 5 yn cyfeirio at hyn)
Y diweddaraaf am wybodaeth allweddol a ddarparwyd i aelodau'r cynllun, er enghraifft Datganiadau Buddion Blynyddol a bandiau cyfraniadau blynyddol; trafodwyd y gwahanol dulliau cyfathrebu
Y diweddaraaf am Ddogfennau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
Arolwg llywodraethu'r Rheolydd Pensiynau
Y diweddaraaf am waith Bwrdd Cyngori'r Cynllun

Ceir rhagor o fanylion yn agendâu a chofnodion y cyfarfodydd uchod o'r Bwrdd, a gellir eu gweld drwy'r ddolen a ganlyn:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/local-pension-board/?lang=cy>

8.0 Rhaglen Waith 2018-19

Mae Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith a gaiff ei hystyried ymhob cyfarfod. Nawr fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub fel y bo'r angen. Dyma'r Rhaglen Waith ar gyfer 2018-19:

- adolygu'r cylch gorchwyl a chytuno ar adroddiad blynyddol 2017-18
- sesiynau hyfforddiant parhaus – datrys anghydfodau mewnol, gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), cyflog pensiynadwy a materion cysylltiedig â hynny
- cyflwyniadau ar faterion cyfredol yn y maes pensiynau (fel y byddant yn dod i'r amlwg)
- y diweddaraf am waith Bwrdd Cyngori'r Cynllun (Cymru)
- adolygu a rhoi adborth i bolisiau a dogfennau pensiwn – taliadau cynllun gwirfoddol, polisi disgresiynol y cynllun pensiwn, y gofrestr risgiau
- arolygon pensiwn blynyddol ac ymgynghoriadau (os ydynt yn berthnasol).

9.0 Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol

Dirprwy Brif Swyddog Tân – Dawn Docx

Pennaeth Cyllid - Julie Brown

Dyma'r swyddogion allweddol a fydd yn cefnogi'r Bwrdd o 01 Ebrill 2018 ymlaen:

Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) – Helen MacArthur

Pennaeth Cyllid - Julie Brown